GWEITHDREFN MAMAU NEWYDD A MENYWOD BEICHIOG

Awdur y Ddogfen: Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Cymeradwywyd gan: y Tîm Gweithredol

Dyddiad Cymeradwyaeth: 24 Tachwedd 2021

Dyddiad Adolygiad i'w gwblhau: Tachwedd 2024

Fersiwn: 2

Gweithdrefn Mamau Newydd a Menywod Beichiog

1. Pwrpas a Chwmpas

1.1 Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cydnabod ei ddyletswydd i sicrhau nad yw iechyd a diogelwch gweithwyr sy'n famau newydd neu'n fenywod beichiog yn cael eu peryglu yn sgil y gwaith y maent yn ei ymgymryd ag o.

1.2 Diben y weithdrefn hon yw sicrhau diogelwch pob mam newydd a menyw feichiog a nodi sut y bydd AaGIC yn bodloni gofynion deddfwriaethol, a hefyd nodi'r cyfrifoldebau dros weithredu mewn perthynas â mamau newydd a menywod beichiog.

1.3 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob gweithiwr sy'n feichiog neu'n magu (baban).

2. Nodau ac Amcanion

2.1 Cymryd pob cam rhesymol fel bod y menywod hynny a allai fod yn feichiog neu'n magu yn cael eu cyflogi heb risg i'w hiechyd neu'u diogelwch eu hunain neu iechyd eu plant heb eu geni.

3. Gweithrediad

3.1 Er nad yw'n ddyletswydd gyfreithiol, anogir gweithwyr sy'n canfod eu bod yn feichiog i roi gwybod i AaGIC yn ysgrifenedig eu bod yn feichiog ac mae'n bosib y bydd yn ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth feddygol o'u beichiogrwydd.

3.2 Ar ôl cael gwybod am y beichiogrwydd, bydd y Rheolwr Cyfleusterau a Chydymffurfiad yn cynnal asesiad o'r risgiau iechyd a diogelwch i'r gweithiwr unigol a/neu ei phlentyn heb ei eni gan ddefnyddio'r ffurflen AaGIC (Atodiad A).

3.3 Wrth gynnal yr asesiad risg, a fydd yn cynnwys y gweithiwr unigol a'i reolwr llinell, rhoddir ystyriaeth i unrhyw ddatganiad meddygol a ddarperir gan feddyg neu fydwraig y cyflogai megis:

- unrhyw gyflwr meddygol presennol a/neu gyflyrau meddygol y gallai'r fam feichiog neu'r fam sy'n magu fod yn dueddol o'u dioddef.
- addasiadau i amodau gwaith y gallai fod eu hangen yn ystod beichiogrwydd neu gyfnod bwydo ar y fron megis:
    - mesurau ychwanegol angenrheidiol i ddiddymu neu reoli risgiau
    - angen posibl am seibiannau ychwanegol neu oriau gwaith byrrach

3.4 Os nodir unrhyw risgiau, bydd AaGIC yn gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i'w diddymu, eu lleihau neu eu rheoli ac os na ellir dileu risg, bydd AaGIC yn:

- addasu dros dros dro amodau gwaith y gweithwyr a/neu eu horiau gwaith, os nad yw hynny'n bosibl

- cynnig gwaith amgen addas (ar yr un gyfradd o dâl) os yw ar gael, neu os nad yw hynny'n ddichonol
- eu gwahardd o'r gwaith ar absenoldeb cyflog llawn cyhyd ag y bo angen ar gyfer eu hiechyd neu eu diogelwch neu iechyd a diogelwch eu plant

3.5 Mae ystafell wedi cael ei neilltuo i gael ei defnyddio gan weithwyr sy'n feichiog neu sy'n bwydo ar y fron a bydd y defnydd o'r cyfleuster hwn yn cael ei drafod a'i gytuno arno fel rhan o'r broses asesu risg.

4. Pandemig COVID-19

4.1 Ystyrir bod menywod beichiog yn ‘agored i niwed yn glinigol’ neu mewn rhai achosion yn ‘eithriadol o agored i niwed yn glinigol’ o ran haint Covid-19.

4.2 Ni fydd yn ofynnol i weithwyr beichiog, ar unrhyw gam o’u cyfnod cario, weithio yn y swyddfa—a dylent drafod yr opsiynau o amgylch gweithio hyblyg gyda'u rheolwr llinell.

4. Hyfforddiant

4.1 Bydd pob gweithiwr benywaidd mewn oed i gael plant yn cael gwybodaeth am y risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch a'r rhagofalon sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny.

5. Monitro

5.1 Mae'n ofynnol i reolwr llinell y gweithiwr sy’n fam newydd neu'n feichiog adolygu'r asesiad risg cychwynnol:

- Wedi 24 wythnos a phob wyth wythnos yn ôl apwyntiad wedi hynny;
- Os yw'r fenyw feichiog yn mynegi unrhyw bryderon yn y cyfamser;
- Ar ddychweliad i'r gwaith.

Atodiad A

Asesiad Risg Mamau Newydd a Menywod Beichiog

Enw:.....

Adran: .....

Dyddiad yr Asesiad: .....

Dyddiad Geni'r Babi (disgwyliedig neu wirioneddol): .....

Hysbysiad ysgrifenedig o feichiogrwydd a dderbyniwyd gan AaGIC:.....

Holiadur		✓	✕
Gwaith codi a chario			
1.	Ydych chi'n cyflawni unrhyw dasgau codi a chario? (Os ✓—disgrifiwch y tasgau hyn yn gryno)		
2.	A oes angen unrhyw gymhorthion trin arnoch i allu cyflawni'r tasgau hyn? (Os ✓—yna nodwch yr eitemau sydd eu hangen arnoch)		
Amgylchedd Gweithio			
1.	Os ydych yn defnyddio sgrin gyfrifiadurol, a gwblhawyd asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos? (Os ✕—yna sicrhewch fod un yn cael ei gwblhau ar unwaith)		
2.	A oes angen offer pellach arnoch i wneud eich swydd yn fwy cyfforddus? (Os ✓—rhestrwch yr eitemau sydd eu hangen arnoch)		
3.	A yw eich diwrnod gwaith yn briodol hyblyg i'ch galluogi i leihau blinder diangen? (Os ✕—ystyriwch ad-drefnu eich oriau gwaith)		

Holiadur		✓	✕
4.	A ydych yn gallu rheoli cyflymder a maint eich gwaith i osgoi straen diangen? (Os ✕—ystyriwch ad-drefnu trefn arferol eich gwaith)		
5.	Ydych chi'n gallu cymryd cyfnodau gorffwys pan fo angen? (Os ✕—ystyriwch ad-drefnu trefn arferol eich gwaith)		
6.	A ydych yn gallu rheoli'r tymheredd yn eich amgylchedd er mwyn osgoi eithafion oerni neu wres? (Os ✕—dylid ystyried gwelliannau i'r systemau gwresogi/awyru)		
7.	Yn nhrefn arferol eich gwaith, a ydych chi'n dod i gysylltiad ag unrhyw sylweddau peryglus a allai achosi niwed i chi neu'ch plentyn sydd heb ei eni/sy'n bwydo ar y fron? (Os ✓—rhestrwch y sylweddau peryglus a sicrhau bod asesiad COSHH wedi'i gwblhau ar gyfer pob un)		
8.	Ydych chi'n profi unrhyw gyflyrau o ganlyniad i'ch beichiogrwydd y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?		
Cyffredinol			

Holiadur		✓	✗
9.	A oes unrhyw faterion gweithle eraill sy'n achosi pryder i chi—y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt? (Os ✓—rhannwch fanylion isod)		

Argymhellion:

(Mae'r camau canlynol wedi'u hymgymryd â nhw i fynd i'r afael â materion a godwyd gan yr asesiad risg hwn)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Llofnodwyd gan: .....(Menyw Feichiog/Mam sy'n Magu)

Dyddiad: .....

Llofnodwyd gan: .....(Rheolwr Llinell)

Dyddiad: .....

Llofnodwyd gan: .....(Rheolwr Cyfleusterau a Chydymffurfiad)

Dyddiad: .....

Ar ôl ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen hon at y Tîm Pobl